# Dysgu Byd-eang

## Beth ydy hyn a pam y dylid ei gefnogi?

**Mae dysgu byd-eang yn gwella'r ffordd rydym yn deall ac yn meddwl am faterion lleol a byd-eang. Mae'n grymuso dysgwyr i greu newid ystyrlon drwy ddatblygu:**

**Gwybodaeth a dealltwriaeth am:** gyfiawnder cymdeithasol a thegwch, hunaniaeth ac amrywiaeth, globaleiddio, cynaliadwyedd, heddwch a gwrthdaro, hawliau dynol, llywodraethu.

**Gwerthoedd ac agweddau:** synnwyr o hunaniaeth a hunan-barch, ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch, parch at bobl a hawliau dynol, gwerthfawrogi amrywiaeth, pryder am yr amgylchedd, ymrwymiad i gyfranogiad, cred y gall pobl gyflwyno newid.

**Sgiliau:** meddwl yn feirniadol a meddwl yn greadigol, empathi, hunanymwybyddiaeth a myfyrio, cyfathrebu, datrys problemau, cydweithredu, y gallu i reoli cymhlethdodau, gweithredu myfyriol, ar sail gwybodaeth.

Mae dysgu byd-eang yn galluogi dysgwyr i:

- **Ddeall materion byd-eang mawr,** fel mudo, gwrthdaro ac anghydraddoldeb, y ffactorau y tu ôl iddynt, a sut mae materion o'r fath yn cysylltu â bywydau ein hunain.
- **Feddwl yn fwy beirniadol a creadigol** i gefnogi ar y cyd a dadansoddi.
- **Werthuso amrywiaeth** a pharchu eraill

Hanfod dinasyddiaeth fyd-eang ydy'r ymrwymiad i gyflwyno ymddygiad positif drwy:

- **Ddathlu'r** pethau sy'n debyg rhyngddom ni a'n gwahaniaethau.
- **Gymryd rhan mewn cymdeithas** a gwneud synnwyr o'r byd rydym yn byw ynddo, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau bod ein lleisiau yn cael eu clywed.
- **Weithredu gyda'n gilydd** i greu byd mwy cyfiawn a chynaliadwy i bawb – nawr ac yn y dyfodol.



Mae Cymru yn ymfalchïo mewn bod yn genedl sy'n edrych tuag allan ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae gennym y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol newydd; rydym y Genedl Masnach Deg gyntaf a gobeithio cyn bo hir, y Genedl Noddfa gyntaf; mae pob Bwrdd Iechyd yn gysylltiedig ag ysbytai yn Affrica; mae mwy na 100 o gysylltiadau cymunedol ar lefel llawr gwlad.

A nawr, mae gennym gwricwlwm ble mai un o'r pedwar prif ddiben ydy datblygu 'dinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd.'

Gydag ymrwymiad cryf, gall yr uchelgeisiau dysgu byd-eang yn y cwricwlwm ddod yn realiti, a chefnogi pawb yng Nghymru i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu — newid hinsawdd, gwrthdaro byd-eang, a thlodi.

Bydd ein dinasyddion iau yn deall pam bod angen i lywodraethau fuddsoddi y tu hwnt i'n ffiniau i greu tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd ar gyfer Cymru a'r byd. Byddant yn dod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang.

# Effaith Dysgu Byd-eang

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** Mae dysgwyr byd-eang yn dod yn 'ddinasyddion moesegol a gwybodus o Gymru a'r byd'. Maen nhw'n cydnabod bod eu gweithredoedd yma yng Nghymru yn cael effaith y tu hwnt i'n ffiniau. Er enghraifft, maen nhw'n fwy tebygol o brynu nwyddau Masnach Deg ac ymgyrchu ar faterion byd-eang. Mae dysgwyr byd-eang yn deall bod materion byd-eang yn gymhleth, ac yn gallu asesu ffynonellau gwybodaeth ar gyfer cywirdeb ac ansawdd.

*"O glywed rhai pethau ysbrydoledig gan bobl, mae hyn wir wedi agor fy llygaid i sut mae'r byd yn gweithio, a sut y buaswn yn gallu gwneud gwahaniaeth yn y dyfodol" disgybl,* GLP-Cymru

**Cymru lewyrchus:** Mae dysgwyr byd-eang yn datblygu'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer cael swydd yn yr 21ain ganrif: datrys problemau, trin cymhlethdodau, gweithio trawsddiwylliannol a meddwl yn feirniadol. Mae tystiolaeth bod mabwysiadu'r rhaglen dysgu byd-eang mewn ysgolion yn gwella cyrhaeddiad ym meysydd datblygiad gwybyddol, mathemateg, cyfranogi, cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol.

*"Rwy'n teimlo fy mod i wedi sylweddoli, neu wedi dysgu, y gallaf wneud gwahaniaeth. Drwy ein stondin gacennau, codwyd bron i 150 o bunnoedd." Elain, o Ysgol Bro Idris*

**Cymru gydnerth:** Mae dysgwyr byd-eang yn fwy ymwybodol o newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar y blaned a phobl. Maen nhw'n deall bod hyn yn fater byd-eang, a bod ganddynt rôl i'w chwarae mewn ceisio mynd i'r afael â hyn. Maen nhw'n fwy tebygol o wneud penderfyniadau sy'n lleihau'r defnydd o adnoddau, a chael eu hysgogi i effeithio ar newid.

*"Rwy'n sicr ein bod ni wedi gallu gwneud gwahaniaeth i sut mae pobl yn meddwl – yn enwedig drwy gynnal gweithdai mewn ysgolion cynradd." Megan o Ysgol Bro Idris*

**Cymru iachach:** Mae gan ddysgwyr byd-eang lais cryfach yn eu hysgolion, a dealltwriaeth o'u hawliau. Maen nhw'n cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd. Mae ysgolion sy'n mabwysiadu'r rhaglen dysgu byd-eang wedi lleihau bwlio, sy'n cael effaith negyddol ar iechyd meddwl.

*"Mae'r Cynllun Ysgolion Heddwch wedi bod yn werthfawr iawn i ni ac yn sicr, mae wedi gwneud ein hamgylchedd yn fwy heddychlon – mae achosion o ymddygiad negyddol wedi disgyn" Rhian Francis, Athrawes, Ysgol Pum Heol*

**Cymru sy'n fwy cyfartal:** Mae dysgwyr byd-eang yn fwy empathig a gydag ymdeimlad cryf o degwch. Maen nhw'n gwerthfawrogi amrywiaeth, ac yn gallu siarad yn bositif am hil a chydraddoldeb. Mae dysgu byd-eang yn cael effaith gryf ar y disgyblion mwyaf difreintiedig.

*"Cyn i mi sefydlu'r prosiect CreuNewid, roeddwn yn un o'r bobl oedd yn meddwl na ddylai ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddod i'r wlad hon. Wedyn, dysgais nad oes bai arnyn nhw, ac mai'r unig reswm pam maen nhw'n dod yma yw oherwydd bod rhaid iddyn nhw, nid oherwydd eu bod nhw eisiau, a'u bod nhw eisiau bywyd gwell. "Ronnie, CCYD*

**Cymru o gymunedau cydlynus:** Mae dysgwyr byd-eang yn datblygu empathi at eraill, ac yn teimlo wedi'u grymuso i wneud newidiadau yn eu cymunedau eu hunain. Mae ysgolion yn teimlo bod dysgu byd-eang yn gwella cydlyniant cymunedol. Mae dysgwyr byd-eang yn fwy tebygol o weithredu ar faterion lleol, a gwerthfawrogi amrywiaeth o fewn eu cymunedau.

*"Gweithdy defnyddiol iawn, yn annog disgyblion i siarad am hiliaeth a stereoteipiau.*

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** Mae dysgwyr byd-eang yn deall hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain mewn perthynas ag eraill. Maen nhw'n fwy tebygol o fod yn bositif am ddiwylliannau eraill, i herio stereoteipiau ac i fod yn llai rhagfarnllyd.

*"Dwi'n meddwl y dechreuais sylweddoli mwy pa mor ffodus yr ydym yng Nghymru i fyw mewn gwlad sy'n mwynhau heddwch." Nefyn o Ysgol Bro Idris*

## Mae Cynghrair Cymru dros Addysg Fyd-eang yn gofyn i

Gymru arwain y byd o ran darparu dysgu byd-eang o safon. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:

**Yn sicrhau cyllid cynaliadwy i sefydliadau dysgu byd-eang yng Nghymru.**

- **parhau i ymgynghori â Chynghrair Cymru dros Addysg Fyd-eang** am strategaeth addysg
- **cynnwys cyllideb ddigonol** ar gyfer hyfforddi athrawon ym maes dysgu byd-eang cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd
- **lobïo Llywodraeth y DU** i sicrhau bod arian ar gyfer gweithgareddau datganoledig Cymru yn cael ei roi i sefydliadau yng Nghymru
- gwneud yn siŵr y gall **Cymru barhau i elwa** o gyllid Erasmus a DEAR ar ôl BREXIT
- **sicrhau bod strwythur cydlynus** ar gyfer dysgu byd-eang sy'n rhedeg drwy gydol a thu hwnt i'r cwricwlwm newydd

## Pwy ydym ni?

*Rydym yn gynghrair o sefydliadau ac unigolion dysgu byd-eang o bob rhan o Gymru.*

*walesalliance@gmail.com*



### Cyfeiriadau

O'Flaherty, J & Liddy, M (2017) *The impact of development education and education for sustainable development interventions: s synthesis of the research,* https://bit.ly/2zVtoQU, cafwyd mynediad iddo ar 13.12.18

Hunt, F (2017) *Schools for Future Youth Evaluation Report: Developing young people as active global citizens,* https://bit.ly/2zUjXBi, cafwyd mynediad iddo ar 13.12.18

*Practices and Impacts,* https://bit.ly/2Bg8ewt, cafwyd mynediad iddo ar 13.12.18

GLP (2017) *The Global Learning Programme: Celebrating Achievement*

Oxfam (2015) *Education for Global Citizenship: A guide for schools,* https://bit.ly/2yBnmU4, cafwyd mynediad iddo ar 13.6.18